Sefydlu targedau – ysgrif bywyd

Trosolwg o'r Wers

1. Cysylltu'r dysgu	Ysgrifennwch ar y bwrdd "Dyma lle mae'ch gyrfa'n dechrau!" Cysylltwch y gweithgaredd ag unrhyw ddysgu sy'n ymwneud â gwaith neu yrfaoedd y mae'r myfyrwyr wedi ei brofi. Mae angen i'r myfyrwyr ddeall, os ydynt am gyflawni eu potensial mewn bywyd, y dylen nhw ddechrau meddwl am osod targedau ar gyfer bywyd a'r dyfodol. Dim ond pan fydd ganddynt dargedau clir y byddan nhw'n gallu dechrau llunio cynllun i'w helpu i'w cyrraedd. Mae'r broses gynllunio honno'n dechrau yma, yng nghyfnod allweddol 3.
2.Y darlun mawr	Mae'r tri gweithgaredd olaf yn y modiwl hwn yn canolbwyntio ar sefydlu targedau a chanfod ffyrdd o'u cyrraedd. Mae angen rhyw 20 munud i gwblhau pob gweithgaredd. Cyfunwch ddau neu dri i greu gwers lawn neu defnyddiwch y gweithgareddau'n unigol yn ystod cyfnodau dosbarth neu fel ffordd ddifyr o ddechrau gwers. O gyfuno pob un o'r 6 gweithgaredd gyda'i gilydd, gallech eu defnyddio ar gyfer digwyddiad gyrfaoedd nad yw'n rhan o'r amserlen.
3. Canlyniadau'r dysgu	O'r rhaglen astudio anstatudol ar gyfer cyfnod allweddol 3: 1.1 Gyrfa a) Deall bod "gyrfa" gan bawb b) Datblygu ymdeimlad o hunaniaeth bersonol yng nghyd-destun dilyniant gyrfa c) Deall y priodweddau, agweddau a sgiliau sydd eu hangen i fod yn gyflogadwy. 2.1 Datblygu'r Hunan Dylai'r disgyblion fedru: a) Datblygu a chynnal eu hunan-barch a rhagweld dyfodol cadarnhaol iddynt eu hunain yn y gwaith c) Asesu eu hanghenion eu hunain, eu diddordebau, eu gwerthoedd, eu sgiliau, eu galluoedd a'u hagweddau yng nghyswllt opsiynau ym maes dysgu, gwaith a menter
4. Cyflwyniad 5 munud	Esboniwch gysyniad "ysgrif bywyd" i'r myfyrwyr. Datganiad ysgrifenedig yw hwn o ble hoffech chi fod erbyn i chi gyrraedd oedran penodol. Gallech chi awgrymu 16, 18 neu 21oed. Mae'n rhaid ysgrifennu'r datganiad yn yr amser presennol,ac adlewyrchu targedau go iawn. Er enghraifft "Rydw i'n 16 ac yn dechrau prentisiaeth mewn gwaith adeiladu" neu "Rydw i'n 18 ac rwy'n byw yn fy nhŷfy hun ac mae gen i fy nghar fy hun." Rhowch gynnig ar ysgrifennu eich fersiwn eich hun i'w defnyddio'n enghraifft ar gyfer y dosbarth. Dywedwch wrth y grŷp fod angen i'r targedau fod yn rhai ymarferol, ond y gallan nhw gynnwys unrhyw beth, fwy neu lai. Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint SkillsActive_Goals os bydd angen.
5. Gweithgaredd 5 munud	Rhowch ddarnau o bapur a phin ysgrifennu i bob myfyriwr. Gallan nhw lunio'u hysgrif bywyd mewn unrhyw ffurf maen nhw'n dymuno - rhestr, map meddwl, lluniau neu os oes deunyddiau ar gael, arddangosfa gyda delweddau wedi'u torri allan o gylchgronau amrywiol. Os yw hynny'n well ganddynt, gallan nhw hyd yn oed actio'u targedau. Y peth pwysicaf yw eu bod nhw'n glir a bod pawb yn eu deall. Eglurwch y byddwch yn gofyn i bawb rannu eu hysgrif bywyd yn ystod y sesiwn.

6. Arddangosiad 5 munud	Bydd pob myfyriwr yn rhannu eu hysgrif bywyd gyda gweddill y dosbarth. Gallan nhw eu darllen, egluro'r lluniau neu'r arddangosfa, neu eu hactio. Mae angen i'r rhai sy'n actio'r targedau gael rhyw fath o nodyn ysgrifenedig i'w hatgoffa o'r hyn maen nhw wedi'i ddweud.
7. Adolygu a rhagolwg 5 munud	Gofynnwch i'r grŷp faint o'r targedau hyn allai gael eu cyrraedd trwy ddechrau cynllunio a pharatoi nawr. Pa mor ymarferol yw rhai o'r targedau hyn? Gofynnwch i'r myfyrwyr gadw eu hysgrif bywyd (neu gallech chi ddewis eu cadw) ar gyfer y sesiwn nesaf, pan fyddan nhw'n cynllunio sut mae cyrraedd eu targedau.

- Gwahaniaethwch yn ôl arddull ddysgu - mae'r gweithgaredd hwn yn arbennig o addas ar gyfer dysgwyr gweledol a chlywedol. Anogwch ddysgwyr cinesthetig i actio'u targedau os byddant yn diflasu. Cyflwyno hyn ar ffurf gêm siarâds. Mae rhaid i weddill y grŷp ddyfalu beth yw'r targed.
- Gwahaniaethwch yn ôl gallu – i ryw raddau mae'r gweithgaredd hwn yn dibynnu ar lefel benodol o sgiliau llythrennedd. Yn achos y myfyrwyr hynny sy'n cael trafferth darllen ac ysgrifennu, gofalwch fod gwirfoddolwr wrth law i gofnodi pethau ar bapur, rhowch gynnig ar eu recordio yn trafod eu targedau ar recordydd fideo neu recordydd llais, neu defnyddiwch ddelweddau wedi'u torri allan o gylchgronau neu luniau i gynrychioli eu targedau.
- Awgrym ar gyfer rheoli'r dosbarth - osgowch embaras posib ynghylch darllen yr ysgrifau bywyd trwy rybuddio'r dosbarth ymlaen llaw y bydd angen iddynt wneud hyn. I osgoi unrhyw swildod, rhowch gynnig ar gyfnewid ysgrifau bywyd, fel nad oes rhaid i bobl ddarllen eu gwaith eu hunain.